SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

## Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

# Archwiliad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Leol

2012-2013

Awst 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 029 20 928850 |
| **Ebost**: | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 029 20 928877 |
| **Gwefan**: | www.hiw.org.uk |

ISBN digidol 978 1 4734 0093 1
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19485

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol…………………………………………… | 5 |
| 2 | Cyflwyniad .……………………………………………………... | 6 |
| 3 | Canfyddiadau'r Archwiliad ………………………………………. | 7 |
| 4 | Offeryn tystiolaeth gyda sylwadau ac argymhellion ………….. | 11 |
| 5 | Casgliad……………………………………………………..… | 41 |
| 6 | Atodiadau…………………………………………………...… | |

# 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl), ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae manylion y Gorchymyn hwn i'w cael yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor. Yng Nghymru, darperir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r AGLl yng Nghymru wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar eu rhan.

**1.2** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, o'i gymharu â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

**1.3 Trosolwg**

Yn y flwyddyn adrodd hon, adolygodd yr AGLl y broses o archwilio gwasanaethau mamolaeth a luniwyd yn 2011-2012 er mwyn ei gwneud yn fwy cymesur gan ganolbwyntio ar naw safon benodol ledled Cymru lle dangoswyd yn y gorffennol bod angen datblygiad parhaus. Dangosodd yr archwiliad presennol hwn fod tystiolaeth gref ar gael ar gyfer 67% (6) o feini prawf y naw safon a fesurwyd, a gwneir argymhellion i'w datblygu ymhellach. Roedd tystiolaeth gref i gymedrol ar gael ar gyfer y 33% (3) arall, ac mae camau datblygu wedi'u hargymell i gryfhau'r swyddogaeth oruchwylio. Roedd yn galonogol gweld bod Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi gweithredu'r camau â'r archwiliad blaenorol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau yn ystod y flwyddyn a dylanwadu ar newidiadau i arferion.

Gwneir argymhellion mewn meysydd lle mae'r offeryn archwilio yn nodi bod angen datblygiad i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddatblygu safonau lle'r oedd tystiolaeth yn llai cadarn a/neu lle byddent yn elwa o ddatblygiad parhaus yn unol ag amcanion y broses archwilio barhaus. Mae'r AGLl wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf nad bwriad y prosesau archwilio diwygiedig yw bod yn feirniadol; eu nod yw cefnogi datblygiad parhaus drwy ddenu'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Mae disgwyl i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio'n unol â chyfres gyffredin o safonau i alluogi bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon gan wella diogelwch y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. I roi sail i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau bydwreigiaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae proses archwilio'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygu cymheiriaid ar gyfer holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a dilynir hyn gan ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i gadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y naw safon blaenoriaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a enwyd, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos a Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio fel tîm, yn rhoi cyfle i adolygu cymheiriaid a meincnodi ac yn cefnogi'r broses o rannu arfer da. Cafodd adolygwyr lleyg yr AGLl eu cynnwys yn y tîm am y tro cyntaf eleni, gan sicrhau bod safbwynt defnyddwyr yn cael ei geisio drwy gydol y broses archwilio yn lle bod yr adolygwyr lleyg yn cynnal archwiliad digysylltiad ar wahân, fel yn y blynyddoedd blaenorol; cafwyd croeso i hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd ymweliad archwilio BILl Aneurin Bevan ar 07/02/2013 fel a gynlluniwyd. Gwahoddwyd personél allweddol i fod yn bresennol yn ogystal â thîm goruchwylio'r Bwrdd Iechyd (**Atodiad A – Rhaglen**).

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad gan Vinny Ness, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gyda chymorth y Goruchwylwyr Bydwragedd profiadol Sue Peterson a Natasha Thomas o Fwrdd Iechyd Hywel Dda a Chwm Taf, Vicki Dawson-John, Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant o Hywel Dda, a Jackie Foster, Adolygydd Lleyg yr AGLl.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad byr gan Vinny Ness i roi golwg gyffredinol ar bethau, a dilynwyd hynny gan gyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd i roi golwg gyffredinol ar BILl Aneurin Bevan a gweithgareddau goruchwylio, ynghyd â chyraeddiadau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da. Roedd yr ymweliad archwilio hefyd yn gyfle i gyfarfod â'r bobl ganlynol a rhannu gwybodaeth am oruchwyliaeth â hwy: y Cyfarwyddwr Nyrsys, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Fydwraig Risg, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, myfyrwyr bydwreigiaeth a defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – pwy oedd yn bresennol**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**3.1** Diben archwiliad blynyddol yr AGLI yw adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod Safonau Goruchwylio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni; sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith i wella diogelwch mamau a babanod; sicrhau bod arferion bydwreigiaeth wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal cymhwysedd clinigol; canfod bod bydwragedd yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu effaith goruchwylio ar arferion bydwreigiaeth. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn llunio asesiad ar sail y wybodaeth a ddarperir gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a thrwy gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Rheolwr Risg Corfforaethol, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, myfyrwyr bydwreigiaeth a defnyddwyr gwasanaeth yn ystod yr ymweliad archwilio.

**3.2** Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI unwaith eto wedi arsylwi tîm o oruchwylwyr sy'n gweithio'n galed ac yn ymdrechu i roi cymorth rhagweithiol i fydwragedd i gefnogi menywod. Mae'r AGLI wedi cydweithio'n agos â Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm cyfan dros y flwyddyn i ateb heriau drwy gynnal ymchwiliadau ac ysgrifennu adroddiadau; bydd hyn yn parhau eleni mewn gweithdai lleol a rhanbarthol. Mae goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gweithio fel tîm cydgysylltiol ledled y Bwrdd ac yn dangos bod ganddynt berthynas dda â'u rheolwyr. Ceir diwylliant o fod yn agored a cheir agwedd fyfyriol pan nad yw pethau wedi bod yn mynd cystal, sy'n cefnogi'r broses o ddysgu gwersi i wella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol. Hoffai'r AGLI ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses o baratoi am yr ymweliad archwilio ac am y ffordd drefnus y cafodd ffeiliau tystiolaeth eu cyflwyno. Mae hyn yn dangos ymroddiad ac yn gwneud y dystiolaeth yn haws ei dilyn, ac felly'n creu proses fwy ystyrlon.

**3.3** **Dyma rai elfennau cadarnhaol ac enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn ystod yr adolygiad**:

- Mae'r thema **'Neges mewn Potel'**, sy'n cael ei defnyddio i atgoffa bydwragedd o bwysigrwydd profi troeth yn ystod pob ymweliad cynenedigol, yn enghraifft ragorol o arloesi a dyfodd yn gyflym i greu rhestr 'Deg Uchaf' o deitlau caneuon poblogaidd i'w defnyddio i helpu bydwragedd i gofio sgiliau hanfodol eraill.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn YYF wedi dechrau 'clinig galw heibio' sydd ar gael i fenywod a bydwragedd i gael cyngor a chymorth. Mae hwn yn gweithredu unwaith y mis ac mae archwiliad ar waith o ddichonoldeb ei gyflwyno i rannau eraill o'r gwasanaeth.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cefnogi hyfforddiant i fydwragedd i ymwneud â sgiliau geni babanod mewn dŵr ar ôl gosod pwll geni yn y ward risg isel fel ffordd o wella'r gyfradd genedigaethau arferol.

- Cafodd yr offeryn archwilio hunanasesu ei ddefnyddio’n briodol gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i ganfod meysydd i’w datblygu a chynllunio’r camau gweithredu gofynnol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn sicrhau perchenogaeth leol i gamau gweithredu ac yn rhoi sail i’r Cynllun Gweithredu.

### 3.4 Heriau

- Fel yn y rhan fwyaf o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd, ceir heriau penodol o ran cydbwyso anghenion swydd barhaol â bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae hyn yn aml yn achosi oedi diangen cyn cynnal ymchwiliadau, ysgrifennu adroddiadau a gosod cosbau.
- Ar hyn o bryd, nid oes dim timau Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru'n cydymffurfio'n llawn â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol i sicrhau bod pob bydwraig wedi cael adolygiad blynyddol yn y 12 mis blaenorol.
- Gan fod pwysau cynyddol ar Oruchwylwyr Bydwragedd i ddangos eu bod yn gymwys ym mhob maes yn y swyddogaeth oruchwylio, mae'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd/bydwragedd wedi bod braidd yn ansefydlog wrth i fwy o Oruchwylwyr Bydwragedd ymddiswyddo a gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol. Er bod y sefyllfa hon wedi cael ei rheoli yn y tymor byr, mae hyn yn rhoi mwy o alw ar y Goruchwylwyr Bydwragedd hynny sy'n dal i fod yn y swyddogaeth; mae'n debygol na fydd hyn yn gynaliadwy a byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa'n ofalus.

### 3.5 Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus

Mae argymhellion i gefnogi tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i wella'r swyddogaeth oruchwylio wedi'u nodi dan bob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o fewn yr offeryn archwilio sy'n dilyn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd eu tystiolaeth cyn ymweliad archwilio'r AGLl ac roedd yn ofynnol iddynt nodi unrhyw gamau gwella yr oeddent yn teimlo bod eu hangen er mwyn cryfhau eu tystiolaeth yn erbyn y mesurau a ddisgrifiwyd gan yr AGLl i ddynodi tystiolaeth gref, gymedrol neu wan. Diben y broses ddiwygiedig hon oedd galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi eu camau gwella eu hunain ar gyfer y flwyddyn i ddod a rhoi perchenogaeth iddynt o ddatblygiad ar gyfer y dyfodol. Cafodd y rhan o'r offeryn archwilio sy'n ymwneud â chynllunio gweithredu ei defnyddio'n dda eleni; dylai ei gwneud yn llawer haws i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lunio Cynllun Gweithredol Goruchwylwyr Bydwragedd yn y flwyddyn sydd i ddod.

**3.6** Mae'r manylion sy'n sail i'r argymhellion wedi'u hamlinellu yn adran 4 dan sylwadau ac argymhellion yr AGLl. Byddai rhywfaint o ddatblygiad o fudd i Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan mewn pedair ar ddeg o safonau. Bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl yn cydweithio â'u timau i gefnogi'r gwaith o baratoi cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn rhoi sylw i ddatblygu'r safonau hyn.

**3.7** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae gan oruchwyliaeth broffil cryf drwy'r Bwrdd Iechyd i gyd ac mae'r Goruchwylwyr

Bydwragedd yn cydweithio’n dda â’r rheolwyr i newid gwasanaethau.  Mae’r AGLI yng Nghymru’n edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i sicrhau bod y broses oruchwylio’n effeithiol, i gefnogi datblygiad y broses o oruchwylio a fydd yn dangos i’r Bwrdd bod goruchwylio wirioneddol yn ychwanegu gwerth at wasanaethau bydwreigiaeth ac yn y pen draw’n gwella diogelwch y cyhoedd drwy swyddogaeth y goruchwyliwr o fynd ati’n weithredol i gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

**4 Offeryn Hunanasesu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac Adborth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI am y Camau Gweithredu a Argymhellir**

| **Rhif** | **Meini Prawf i'w Mesur** | **Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd**<br><br>**Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan** | | **Camau Gwella Arfaethedig y BILI:** |
|---|---|---|---|---|
| V1 | **Ceisir barn a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth statudol.** | Mae gan y grŵp Goruchwylwyr Bydwragedd holiadur sy'n cael ei anfon at bob bydwraig fel archwiliad blynyddol i gasglu eu safbwyntiau a'u profiadau o oruchwyliaeth statudol. Cwblhawyd yr archwiliad ym mis Rhagfyr a chafwyd ymateb gan 32% o fydwragedd, sy'n welliant ar flynyddoedd blaenorol.<br>Mae'r canlyniadau wedi'u hamgáu yn y ffolder tystiolaeth, ynghyd â'r holiadur.<br>Roedd 93% o'r bydwragedd yn ystyried bod goruchwyliaeth yn gadarnhaol, sy'n gynnydd, dywedodd 100% fod eu hadolygiad goruchwylio blynyddol yn fuddiol ac roedd 100% wedi archwilio nodiadau yn ystod eu hadolygiad goruchwylio blynyddol.<br>Mae'r cynllun gweithredu yn y ffolder tystiolaeth yn dangos ymroddiad y Goruchwylwyr Bydwragedd i wella profiad bydwragedd o oruchwyliaeth yn lleol. | | Ar y ddogfen amgaeedig – sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn fwy amlwg yn y gweithle o ddydd i ddydd: bydd ymgyrchoedd a gynllunnir, fel 'Neges mewn Potel', o gymorth. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V1 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref gan fwyaf. Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | **Archwiliad o fwy nag 20% o safbwyntiau bydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 95 i 100% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol** | **Safbwyntiau o leiaf 10% o fydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 90 – 95% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn bennaf** | **0 archwiliad**<br><br>**Mae llai na 10 yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol, neu'n dweud ei bod yn negyddol**<br><br>**Mae llai na 90% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad a/neu ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth negyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Anfonwyd yr holiadur swmpus at bob un o'r 368 o fydwragedd, a chafodd y Goruchwylwyr Bydwragedd ymateb gan 119 o fydwragedd ar draws tri safle'r Bwrdd Iechyd gyda chyfradd uchel o sylwadau cadarnhaol am oruchwylio. Roedd hyn yn gynnydd oddi ar archwiliad y llynedd ac mae'r canfyddiadau wedi cael eu casglu mewn adroddiad crynodeb sy'n cynnwys argymhellion i wella arferion fel yr argymhellwyd gan yr AGLI y llynedd. Mae'r AGLI yn nodi'r sylw sy'n dweud bod y broses benodi lafurus yn rheswm pam nad yw bydwragedd yn gwneud cais i fod yn Oruchwyliwr Bydwragedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylai cynllun gweithredu goruchwylio blynyddol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan nodi sut y bydd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwella cyfradd y bydwragedd sy’n rhoi eu barn am oruchwyliaeth i’r archwiliad, a rhoi sylw i’r mater a godwyd ynghylch mynediad cyson i fydwragedd at hyfforddiant gorfodol a diweddariadau.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V2 | **Gwneir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.** | Mae ystafelloedd ar gael ym mhob lleoliad lle gall Goruchwylwyr Bydwragedd gyfarfod â bydwragedd yn breifat; mae hyn yn flaenoriaeth bob amser i bob Goruchwyliwr Bydwragedd.<br>Dywedodd 100% o'r bydwragedd a atebodd yr holiadur fod eu hadolygiad goruchwylio blynyddol wedi digwydd mewn ystafell a oedd yn sicrhau preifatrwydd – cynnydd o 6% ar y llynedd.<br>Mae cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd ar gael drwy'r amser i ddangos tystiolaeth pe byddai angen. | | Yn ddelfrydol, ceid sicrwydd bod adolygiadau goruchwylio blynyddol yn gallu cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar gronfa ddata'r AGLI tra bo'r fydwraig yn bresennol, gan symud at broses ddi-bapur. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o fydwragedd yn hoff o gael copi papur i'w roi yn eu portffolio personol. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V2 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.**<br><br>**2012/13**<br>**Ni chafodd y safon hon ei hasesu ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu argymhelliad y flwyddyn flaenorol** | | **Dangoswyd ystafell benodol i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y cynhelir cyfweliadau goruchwylio**<br><br>**Ceir mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ystafell benodol er mwyn gallu gweithio ar-lein, yn ogystal â mynediad at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Mae ystafell benodol ar gael gan amlaf neu gellir dangos i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y sicrheir bod ystafelloedd ar gael**<br><br>**Ni cheir mynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Ni ellir nodi unrhyw ystafelloedd neu mae'n ymddangos y cânt eu neilltuo yn ôl yr angen**<br><br>**Dim mynediad i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae llai na 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cafodd y Swyddog Bydwreigiaeth AGLI weld ystafelloedd lle'r oedd adolygiadau goruchwylio'n digwydd; roedd y rhain yn cynnig preifatrwydd. Canfu'r archwiliad o 23% o fydwragedd fod 94% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr adolygiad wedi digwydd mewn ystafell a oedd yn sicrhau preifatrwydd. Soniodd y Goruchwylwyr Bydwragedd am ddarlun cymysg o ran mynediad i'r rhyngrwyd, ond nid oeddent yn teimlo bod hyn yn beth drwg ym mhob achos gan ei bod yn well gan rai bydwragedd lenwi adolygiad ar bapur fel rhan o'r broses o ryngweithio â'u Goruchwyliwr Bydwragedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

**Diweddarwyd 2012/13**
Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ystyried archwilio barn bydwragedd am oruchwyliaeth yn amlach, ynghyd â'r hyn y gallant ei wneud i gynyddu'r gyfradd ymateb, er mwyn cael sampl ehangach o safbwyntiau a fyddai'n fwy cynrychiadol o weithlu bydwreigiaeth cyfan y Bwrdd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V3 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer arferion clinigol.** | Goruchwylwyr sy'n gyfrifol am ddiweddaru a datblygu rhai polisïau penodol, e.e. polisi geni yn y cartref.<br>Mae'r unigolion sy'n gyfrifol am eu diweddaru wedi'u cofnodi ar y rhestr adolygu polisïau effeithiolrwydd clinigol. Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd hefyd eu cofnodi ar y rhestr adolygu ac mewn cofnodion.<br>Caiff unrhyw bolisïau drafft neu ganllawiau sy'n destun adolygiad eu hanfon at oruchwylwyr drwy e-bost, a chânt hefyd eu rhoi ar agenda'r cyfarfod goruchwylio misol.<br>Trafodir polisïau hefyd mewn cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol.<br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynychu Grwpiau Canllawiau Clinigol ar sail rota bob mis yn unol â risg. | | Cafodd polisi a gweithdrefn Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar gyfer rheoli polisïau, gweithdrefnau a dogfennau ysgrifenedig eraill eu hadolygu yn 2012. Mae holl bolisïau'r Bwrdd yn cynnwys enw'r Adran; fodd bynnag, nid yw'r polisi uchod yn datgan yn benodol bod yn rhaid cynnwys Goruchwylwyr Bydwragedd wrth ddatblygu polisïau. Fodd bynnag, mae'n datgan "5. *Wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y fforwm priodol. (e.e. Fforwm effeithiolrwydd clinigol) 11. Dylid datblygu pob polisi a phob dogfen reoli ysgrifenedig arall drwy ymgynghori â'r gynulleidfa darged gan gynnwys cynrychiolaeth briodol gan reolwyr, clinigwyr a staff. Dylai pob polisi newydd a phob polisi a ddiwygir yn sylweddol fod yn destun ymgynghoriad o fewn yr adran gyda'r gweithwyr proffesiynol, y grwpiau a/neu yr unigolion perthnasol*"<br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn y fforwm effeithiolrwydd clinigol. Mae'r cylch gorchwyl yn y ffolder tystiolaeth. Maent yn ymwneud â dirprwyo polisïau i gael eu hadolygu, eu datblygu a'u cadarnhau yn y fforwm hwn. Dogfennir hyn yn y cofnodion. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V3 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | | **Proses eglur sy'n amlinellu sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r grŵp datblygu canllawiau**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel datblygwyr** | **Mae rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â datblygu canllawiau hyd yn oed os nad yw hyn yn broses ffurfiol**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel unigolion yr ymgynghorwyd â hwy** | **Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cyfeirio at Oruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu neu'n cymeradwyo canllawiau** |

| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Mae proses gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn dynodi pwysigrwydd datblygu polisïau, ac ymgynghori arnynt, mewn ffordd sy'n cynnwys unigolion sy'n meddu ar y wybodaeth briodol, felly gellir tybio y byddai Goruchwylwyr Bydwragedd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn ymwybodol o drafodaethau am bolisïau yng nghyfarfodydd misol Goruchwylwyr Bydwragedd, ac mae wedi ymwneud â rhoi sylwadau am bolisïau a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd. Ceir tystiolaeth gref fod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynrychioli goruchwyliaeth yn y Fforwm Effeithiolrwydd Clinigol, gan wneud sylwadau priodol am bolisïau, ac mae'r cylch gorchwyl yn nodi bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn aelodau o'r grŵp. Mae presenoldeb Goruchwylwyr Bydwragedd yn llai amlwg yn y Dyddiau Llywodraethu Clinigol, er bod swyddogaeth ddeuol gan rai o'r Goruchwylwyr Bydwragedd sydd yno. Mae siart llif yn amlinellu'r broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau newydd, eu diweddaru, ymgynghori arnynt a'u rhannu, ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg iawn ar bob cam o'r broses. |
| --- |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Anogir Goruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod cofnodion Diwrnodau Llywodraethu Clinigol yn adlewyrchu'r ffaith fod Goruchwylwyr Bydwragedd yn aelodau gweithredol o'r grŵp ac yn cyflwyno safbwynt penodol goruchwyliaeth i waith y grŵp. Awgrymir mai tystiolaeth yw'r rhan fwyaf o'r camau gwella arfaethedig a nodir uchod mewn gwirionedd, ac nid camau yr hoffai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried ei adolygu. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V4 | **Mae dogfennau o ganllawiau a pholisïau lleol ar gael i bob bydwraig ar ffurf electronig neu gopi caled.** | Mae'r holl ganllawiau / polisïau ar gael ar Fewnrwyd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a cheir cyfarwyddeb glir am sut y dylid eu ffurfio, eu cadarnhau, eu gweithredu a'u harchwilio (gweler y dystiolaeth).<br>Mae hysbysfwrdd Goruchwylwyr Bydwragedd ym mhob man clinigol lle caiff rhestri o ganllawiau newydd eu harddangos, a cheir prosesau i gyfathrebu canllawiau newydd mewn cyfarfodydd a drwy ddulliau electronig.<br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn nodi ac yn cofnodi canllawiau newydd yn eu cyfarfodydd misol, a byddant yn eu rhannu â bydwragedd yn ymarferol.<br>Ceir Siart Llif Dosbarthu Polisïau a Chanllawiau Newydd mewn Gwasanaethau Mamolaeth, ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhan o'r broses ddosbarthu. | Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal archwiliad ar hap o wybodaeth bydwragedd am ganllawiau lleol a mynediad atynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

| Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | **Mesurau**: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|
| V4 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref gan fwyaf.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | **Proses eglur sy'n dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu gyda bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Ceir proses eglur i Oruchwylwyr Bydwragedd ddosbarthu canllawiau a sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** | **Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu, ond mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â phroses o gyfathrebu â bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud y dosbarthu, ond gallant ddangos eu bod yn ymwneud i ryw raddau â sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'r canllawiau neu'n cytuno arnynt** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni unrhyw swyddogaeth wrth hysbysu bydwragedd am ganllawiau newydd neu sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cafodd tîm archwilio'r AGLI weld lle mae polisïau ysgrifenedig ar gael yn y wardiau i fydwragedd eu gweld, a chawsant weld hefyd sut i fynd at adran polisïau mamolaeth ar safle mewnrwyd y Bwrdd. Roedd y bydwragedd y siaradwyd â hwy hefyd yn gallu disgrifio sut y cânt wybod am bolisi newydd, ble caiff hyn ei hysbysebu a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i ddangos eu bod wedi'i weld a'i ddarllen. Mae gan y Goruchwylwyr Bydwragedd siartiau llif clir erbyn hyn i nodi'r prosesau datblygu, dosbarthu a hysbysu polisïau a chanllawiau newydd ar gyfer bydwragedd. Mae'r siart llif yn cydnabod mai 'Derbynebau Darllen' yw'r arfer gorau i ddangos bod bydwragedd wedi gweld polisïau newydd a'u darllen, ond nid yw'n glir a yw hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylid cwblhau'r cam gweithredu arfaethedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnal archwiliadau ar hap o wybodaeth bydwragedd am y broses o weld polisïau

| |
|---|
| ysgrifenedig a pholisïau electronig, a dylid cyflwyno'r archwiliadau hyn fel tystiolaeth ar gyfer archwiliad yr AGLl y flwyddyn nesaf yn ogystal â dangos tystiolaeth fod Derbynebau Darllen yn arfer safonol ar draws y gwasanaeth mamolaeth. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V5 | **Mae gweithdai sgiliau ac ymarferion sy'n berthnasol i'w lleoliad ymarfer, ac a argymhellir gan CEMACH ac argymhellion cenedlaethol eraill, ar gael i fydwragedd ac maent yn manteisio arnynt.** | Ceir rhaglenni hyfforddiant gorfodol sy'n cynnwys cynlluniau gwersi ar gyfer argyfyngau obstetrig. Caiff staff eu hasesu mewn grwpiau yn ystod y sesiynau ymarfer. Mae rhai bydwragedd yn cael hyfforddiant ychwanegol yn unol â'u cynlluniau datblygiad personol, e.e. ALSO.<br>Ceir tystiolaeth glir o hysbysu rheolwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd am ddiffyg presenoldeb bydwraig, a chaiff hyn ei wirio'n gyson â'r Fydwraig Addysg Ymarfer sy'n cynhyrchu adroddiadau hyfforddiant rheolaidd a rennir â Goruchwylwyr Bydwragedd. Trafodir diffyg cydymffurfio mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>Nid yw'r targed presenoldeb 75% wedi'i gyflawni eto, ond mae'r flwyddyn hyfforddiant yn parhau tan fis Mawrth 2013; bydd blwyddyn newydd yr hyfforddiant a gynllunnir yn dechrau ym mis Ebrill 2013.<br>Mae goruchwylwyr yn cymryd rhan mewn addysg orfodol ac mae rhai'n cynnal ymarferion obstetrig gyda'r tîm amlddisgyblaethol mewn mannau clinigol.<br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn canfod anghenion personol bydwragedd yn yr adolygiad goruchwylio blynyddol.<br>Dywedodd 98% o'r bydwragedd a oedd wedi llenwi'r holiadur archwilio eu bod yn cael cyfle i gael diweddariadau gorfodol, a dywedodd 82% eu bod wedi manteisio ar y cyfle hwnnw. Y prif reswm am beidio â gwneud hynny yw pwysau staffio. | | Mae adnodd amser yn dal i fod yn her o ran diweddariadau gorfodol, ond mae rheolwyr a goruchwylwyr yn ymroddedig i wella cyfleoedd i'r staff i fod yn bresennol. Gweler y cynllun gweithredu. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V5 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gymedrol.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.**<br><br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gymedrol i gryf.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | | **Ceir cofnod hyfforddiant sy'n dangos bod rhaglen wedi'i sefydlu o flwyddyn i flwyddyn sy'n ymdrin â'r holl brif sgiliau ac ymarferion a argymhellir gan CEMACH**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 95 - 100% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gofnod hyfforddiant ond nid yw'n gyfredol nac yn dangos gwelliant parhaus o ran presenoldeb**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 90 - 95% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus.**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac** | **Nid oes cynllun hyfforddiant wedi'i sefydlu i gefnogi presenoldeb na gwelliant yn y niferoedd sy'n mynychu**<br><br>**Mae llai na 90% o fydwragedd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mewn blynyddoedd blaenorol**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** |

**Sylwadau'r AGLI**

**Diweddarwyd 2012/13**
Er na chafodd y safon hon ei harchwilio yn ystod y flwyddyn, darparodd y Goruchwylwyr Bydwragedd lawer o dystiolaeth i ddangos eu gwaith caled a'u hymroddiad i wella gwaith yn y maes pwysig hwn. Mae'n amlwg bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddarparu'r sesiynau hyfforddi/diweddaru, ac yn monitro presenoldeb ynddynt. Roedd tystiolaeth o hyd i ddangos bod sesiynau'n aml yn cael eu canslo gan nad oes digon o staff yn rhydd i fod yn bresennol oherwydd eu baich gwaith clinigol, sy'n golygu bod y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd ei darged ei hun o bresenoldeb o 75%. Cafwyd rhai adroddiadau da i grynhoi gweithgarwch a phresenoldeb/diffyg presenoldeb ym mhob un o'r diwrnodau hyfforddiant, ac roedd yr adroddiadau'n cynnwys adrannau argymhellion a chynlluniau gweithredu; mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfrannu at y rhain i gyd. Fodd bynnag, ni chafwyd dim tystiolaeth i ddangos sut y caiff cynlluniau gweithredu eu rheoli a gan bwy, na thystiolaeth i ddangos gwelliant o ganlyniad i'r cynllunio gweithredu.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd barhau i sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'u hatebolrwydd proffesiynol eu hunain i feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau ac ymarferion argyfwng yn unol â chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'u contractau cyflogaeth. Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod cynllun gweithredu'r flwyddyn nesaf yn dangos sut y byddant yn cefnogi rheolwyr i wella presenoldeb ac y gellir dangos cysylltiad rhwng y cynlluniau gweithredu a chanlyniadau gwella clir.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V6 a V7 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion gweithgareddau Goruchwylio am 7 mlynedd.** ***Rheol 12.***<br>**Caiff cofnodion goruchwylio eu storio mewn ffordd sy'n cynnal cyfrinachedd.** ***Rheol 12.*** | Mae gan bob Goruchwyliwr Bydwragedd gwpwrdd ffeiliau ei hun, sydd wedi'i gloi, ac mae allweddi newydd wedi'u cael i sicrhau bod hyn yn 100% fel y nodir yn y dystiolaeth ategol.<br>Mae'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn storio cofnodion yn ddiogel ac yn gyfrinachol. | |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
|---|---|---|---|---|
| V6 a V7 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref. Nid awgrymwyd camau datblygu.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | | **Ceir man penodol sydd wedi ei nodi'n eglur ar gyfer cadw cofnodion goruchwylio nad ydynt yn rhan o unrhyw ffeiliau Adnoddau Dynol eraill.**<br><br>**Gellir dangos bod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl o leiaf 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Ceir man lle y cedwir cofnodion goruchwylio, ond maent yn tueddu i gael eu cadw gyda ffeiliau Adnoddau Dynol eraill, er eu bod yn dal ar wahân ac nad oes modd i bobl eraill gael atynt**<br><br>**Ni ellir dangos bod y cofnodion yn mynd yn ôl 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio rhan o'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Nid oes man penodol ar gael ac mae ffeiliau goruchwylio yn cael eu cadw gyda ffeiliau rheoli/Adnoddau Dynol sydd ar gael i bobl eraill**<br><br>**Ychydig o gofnodion a gedwir yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, neu ddim o gwbl**<br><br>**Nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'n ddigonol yr hyn y byddent yn ei wneud pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Roedd hwn yn faes o gydymffurfiad cryf, ac ni chodwyd unrhyw bryderon gan Oruchwylwyr Bydwragedd na bydwragedd. Dangoswyd cyfleusterau storio i'r AGLI a oedd yn bodloni'r safonau. Gallai'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses o archifo cofnodion neu eu trosglwyddo i'r AGLI pe byddai anawsterau'n codi, a chafwyd tystiolaeth weladwy o ffeiliau ar gyfer y cyfnod saith mlynedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V8 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael cymorth gyda'u tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLI.** | Mae gan dîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan gymorth gweinyddol penodedig a ariennir drwy gyllideb y Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae Kerry Jeffries yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithlon ac yn effeithiol drwy gadw cofnodion, cynllunio a dosbarthu gwybodaeth, darparu cymorth cronfa ddata a chysylltu â thîm yr AGLI. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V8 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref**<br>**Nid awgrymwyd camau datblygu.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | | **Ceir swyddog gweinyddol penodol sy'n gallu dangos ei swyddogaeth yn eglur o ran cynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gofnodion a chyfathrebu ar lafar** | **Mae rhywfaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer materion gweinyddol, ond nid yw deiliad unigol y swydd yn gallu dangos cofnodion cystal o'i gwaith na'i ddisgrifio'n dda** | **Gellir gweld trwy adolygu cofnodion ac wrth drafod nad oes amser wedi'i neilltuo mewn gwirionedd ar gyfer cymorth gweinyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cafwyd tystiolaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar i gadarnhau bod y safon hon wedi'i bodloni. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi gweld cymorth gweinyddol i'r tîm yn datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hi'n aelod effeithiol o'r tîm.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad oni bai bod anghenion y tîm yn cynyddu neu'n newid.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V9 | **Cynhelir cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi.** | Cyfarfodydd misol a chofnodion yn cael eu cofnodi er tystiolaeth; cedwir cofnod o bresenoldeb pob Goruchwyliwr hefyd. Mae presenoldeb cyfartalog cyffredinol y cyfarfodydd ers mis Ebrill 2012 yn 67% (53-80%). Gwnaethpwyd rhai newidiadau wrth i unigolion gael eu dad-ddewis a chael caniatâd i fod yn absennol, ac oherwydd salwch. Anfonir y cofnodion at yr holl Oruchwylwyr drwy e-bost. Gosodir agenda cyn pob cyfarfod a thrafodir adolygiad o'r Camau Gweithredu gofynnol o'r cyfarfod blaenorol. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V9 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref gan fwyaf.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | | **Ceir cofnodion eglur o gyfarfodydd gyda Chylch Gorchwyl a chynllun gweithgarwch/gosod agenda**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol yn eglur ac mae lefel presenoldeb o 70 – 75% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses eglur ar gyfer dosbarthu cofnodion a neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Ceir cofnodion o gyfarfodydd ond nid oes proses eglur ar gyfer gosod yr agenda na Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol ac mae lefel presenoldeb o 50 - 70% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses ar gyfer dosbarthu cofnodion ond nid yw mor amlwg sut y cymerir camau gweithredu a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny**<br><br>**Roedd 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Nid oes trywydd cofnodion y gellir ei archwilio, Cylch Gorchwyl na chynllun eglur ar gyfer gosod agenda**<br><br>**Mae'n ymddangos bod llai na 50% yn bresennol yn rheolaidd ym mhob cyfarfod**<br><br>**Nid oes proses wedi'i sefydlu ar gyfer dosbarthu cofnodion na neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae tîm goruchwylio'r BILI wedi datblygu rhwydwaith cryf o Oruchwylwyr Bydwragedd sy'n defnyddio'u cyfarfodydd yn effeithiol i adolygu digwyddiadau, rhannu gwersi a ddysgwyd a llunio cynlluniau i gefnogi menywod. Caiff y cofnodion eu rhannu'n brydlon ac maent yn gofnod defnyddiol o drafodaethau a chynllunio gweithredu.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r tîm fonitro presenoldeb yn ofalus, o ran niferoedd ac o ran rhannu'r llwyth gwaith yn briodol. Os yw ymrwymiadau gwaith yn parhau i atal yr un unigolion rhag bod yn bresennol, dylid ystyried hyn a sefydlu cynlluniau i gefnogi pob Goruchwyliwr Bydwragedd i gyfrannu at agenda'r tîm a chymryd rhan weithredol yn y cynllun gwaith goruchwylio. Bydd hyn yn gynyddol bwysig pan gyflwynir yr offeryn cymhwysedd hunanasesu i Oruchwylwyr Bydwragedd yn ystod y flwyddyn, a fydd yn ei gwneud yn

| |
|---|
| ofynnol i bob Goruchwyliwr Bydwragedd ddangos datblygiad parhaus yn ei swyddogaeth. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V10 | **Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol.** | Caiff yr holl wybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yr AGLI ac ati ei hanfon ymlaen drwy e-bost at bob Goruchwyliwr. Mae gan bob Goruchwyliwr ffôn Blackberry sy'n rhoi mynediad cyson at e-bost iddynt.<br>Cafwyd enghraifft o ddosbarthu Rheolau Bydwragedd newydd diweddar (2012) i bob Goruchwyliwr Bydwragedd ac yna eu hanfon ymlaen at bob bydwraig ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V10 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref**<br>**Nid awgrymwyd unrhyw gamau datblygu.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | | **Mae proses eglur wedi'i sefydlu y gellir dangos ei bod yn sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff statudol h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion**<br><br>**Gallai 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Mae proses rannol wedi'i sefydlu, ond nid oes tystiolaeth eglur i ddangos sut y mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth**<br><br>**Gallai 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Nid oes proses eglur wedi'i sefydlu ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar hap ac yn ôl y gofyn**<br><br>**Gallai llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** |

**Sylwadau'r AGLI**

Roedd defnyddio cyllid yr AGLI i brynu ffonau Blackberry i Oruchwylwyr Bydwragedd yn gam doeth i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn cael y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf, i hysbysu am ddigwyddiadau a'i bod yn hawdd cysylltu â hwy am gyngor.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V11 | **Mae strategaethau fframweithiau Rheoli Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol i fydwragedd.** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi parhau i ddangos presenoldeb gweladwy o ran llywodraethu clinigol drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd risg lleol, cyfarfodydd digwyddiadau niweidiol, fforwm ward esgor, cyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Gwasanaethau Mamolaeth a chyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth. Cadwyd cofnod o bresenoldeb fel Goruchwyliwr Bydwragedd, nid mewn swyddogaeth barhaol. | | Gallai ymdrechion i fod yn fwy amlwg gynnwys bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Busnes Newydd-anedig a chyfarfodydd Archwilio Amenedigol, a chofnodion clir o bresenoldeb yn y Fforwm Effeithiolrwydd Clinigol ac ar ddyddiau Llywodraethu Clinigol fel Goruchwylwyr Bydwragedd. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V11 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | | **Ceir polisi ysgrifenedig eglur yn yr adran llywodraethu clinigol sy'n ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng y timau llywodraethu Clinigol/Goruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd lle y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd eu swyddogaeth oruchwylio ac yn dangos eu cyfraniad at yr agenda llywodraethu clinigol** | **Nid oes polisi ysgrifenedig wedi'i sefydlu, ond mae rheolwyr llywodraethu clinigol yn gallu disgrifio'r hyn y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud a sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol ar hyn o bryd**<br><br>**Roedd Goruchwyliwr Bydwragedd yn bresennol yn y pwyllgor llywodraethu clinigol priodol, neu wedi cyfrannu ato, ar 2 achlysur o leiaf yn ystod y flwyddyn flaenorol** | **Nid oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y tîm llywodraethu clinigol yn cydnabod Goruchwylwyr Bydwragedd, ac ni allant ddisgrifio'r rhyng-gysylltiad yn eglur**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu unrhyw bwyllgor llywodraethu clinigol yn ei hawl ei hun hyd yn oed os yw hi yno yn rhinwedd dwy swyddogaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi gwneud cynnydd da o ran y safon hon, ac wedi cyflwyno tystiolaeth gadarn i ddangos sut y maent yn cyfrannu, yn eu swyddogaeth fel Goruchwylwyr Bydwragedd, at yr agenda llywodraethu clinigol mewn cyfarfodydd llywodraethu a risg perthnasol ar draws y Bwrdd a sut y cânt eu cydnabod fel aelodau pwysig o'r tîm. Mae Strategaeth Rheoli Risg Clinigol y gwasanaethau mamolaeth yn rhoi cydnabyddiaeth glir i'r Goruchwylwyr Bydwragedd a'u swyddogaeth o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Roedd y cydlynydd risg yn bresennol yn archwiliad yr AGLI ac yn gallu rhoi disgrifiad clir o'r cysylltiad rhwng goruchwyliaeth a rheoli risg o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Caiff y Goruchwylwyr Bydwragedd eu neilltuo i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol a fforymau diogelwch/gwella eraill ar batrwm cylch, a chytunir ar y patrwm hwn ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Nyrsys y byddai Goruchwyliwr Bydwragedd yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Mamolaeth lle y caiff datblygu gwasanaethau, heriau a gwelliannau eu monitro a'u hystyried. Mae gwaith i'w wneud o hyd i ymgorffori proses ymchwiliadau ym maes goruchwyliaeth ar y cyd â phrosesau ym meysydd risg a rheolaeth er mwyn osgoi dyblygu i bawb dan sylw.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Parhau fel yr uchod i gryfhau cyfraniad gweithredol Goruchwylwyr Bydwragedd at wella ansawdd, trefn llywodraethu a diogelwch i fenywod a'u babanod yn eu swyddogaeth fel Goruchwylwyr Bydwragedd. Gwneud mwy i ddatblygu'r broses o ymchwilio ar y cyd rhwng rheolaeth, risg a goruchwyliaeth i wella canlyniadau i bawb dan sylw a sicrhau casgliadau prydlon i ymchwiliadau goruchwyliaeth ac arferion adferol i fydwragedd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V12 | **Mae rhyngwyneb amlwg rhwng goruchwylio a rheoli risg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol.** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol ym mhob cyfarfod Risg/Trosglwyddo yn nhair ardal y gwasanaeth mamolaeth. Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu neilltuo yn y cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd misol. Defnyddir siart llif i ddangos yn glir pwy sy'n gyfrifol am neilltuo adolygiadau achosion/ymchwiliadau. Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd swyddogaeth bwysig a gydnabyddir o fewn y broses o ymchwilio i ddigwyddiadau anffafriol difrifol. Pryd bynnag y bo'n bosibl, ceir cysylltiad rhwng Goruchwylwyr Bydwragedd ac ymchwiliadau rheolwyr a byddant yn cynnal cyfweliadau ar y cyd i osgoi dyblygu.<br>Roedd tystiolaeth ar gael, ond nid yw ynghlwm er mwyn amddiffyn cyfrinachedd. | | Defnyddio offeryn newydd yr AGLI i gofnodi gweithgarwch myfyriol rhwng Goruchwyliwr Bydwragedd a bydwraig sy'n destun ymchwiliad, pan gaiff hyn ei argymell, er mwyn darparu trywydd archwilio. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V12 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gymedrol i gryf.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | | **Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys yr angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses**<br><br>**Pan fo canlyniadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem a gynhaliwyd ynglŷn â digwyddiad difrifol yn cael eu hadolygu ar sail tîm amlddisgyblaethol, ceir tystiolaeth eglur bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi bod yn rhan o'r tîm yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd** | **Nid oes cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n nodi y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol, ond gall aelodau staff llywodraethu clinigol a Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio bod hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm llywodraethu clinigol yn cydweithio mewn adolygiad o ddigwyddiad difrifol ac yn arbennig pan fo gwersi i'w dysgu o ran arfer bydwreigiaeth** | **Nid oes cydnabyddiaeth fod angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses adolygu digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol ac nid oes proses iddynt rannu gwersi gyda'r tîm bydwreigiaeth** |
| **Sylwadau'r AGLI** | | | | |

| |
|---|
| Fel yn y safon flaenorol, mae'n ymddangos bod tîm risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd i gryfhau yn y maes hwn, a cheir tystiolaeth glir o gydweithio agosach mewn fforymau priodol. Mae'r broses ymchwilio ar y cyd rhwng rheolwyr a goruchwylwyr yn dal i gael ei datblygu, ond dylid cymeradwyo'r Bwrdd am eu cynnydd hyd yn hyn. Fodd bynnag, fel yn y safon flaenorol, mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd ddatblygu'r broses ymhellach i sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys yn rhagweithiol yn y broses o reoli ac ymchwilio risg ar y cyd, ac ar yr un pryd, cadw'r ymagwedd o fod ar wahân y mae goruchwylwyr yn ei roi i'r broses ymchwilio. Yn benodol, mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd geisio canfod ffyrdd o roi sylw i ymchwiliadau goruchwylio o fewn amser rhesymol i sicrhau bod canlyniadau'n cyd-fynd â chamau unioni a bod ymarfer bydwragedd yn cael ei adfer yn effeithiol mewn modd prydlon. Mae'r ffaith fod cyfarfodydd rheoli risg wedi penderfynu defnyddio offeryn ymarfer myfyriol yr AGLI fel cam gweithredu yn dystiolaeth bod ymarfer eisoes yn newid. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd ystyried gwaith timau risg a rheoli a sut y gall goruchwyliaeth gysylltu â phroses ar y cyd, neu gyfrannu ati, er mwyn lleihau dyblygu a gwella canlyniadau i bobl sy'n destun ymchwiliad. Hefyd, mae angen cydnabod bod gan Oruchwylwyr Bydwragedd rywfaint o arbenigedd i'w gyfrannu at y broses risg, rheoli ac archwilio o safbwynt penodol goruchwylio arferion bydwreigiaeth. Argymhellir bod cynllun gwaith Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnwys amcan a fydd yn cryfhau cydweithio agosach â rheoli risg er mwyn gallu rhoi tystiolaeth o hynny ar ddiwedd yr adolygiad archwilio blynyddol nesaf. |

| Rhif | Meini Prawf i’w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V13 | **Dosberthir canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol er mwyn rhoi sail i arferion.** | Caiff canlyniadau ymchwiliadau eu rhaeadru i’r holl staff drwy gyfarfodydd uned, cyfarfodydd cydgysylltwyr wardiau esgor, diwrnodau llywodraethu clinigol amlddisgyblaethol a thrwy anfon negeseuon e-bost a defnyddio hysbysfyrddau’r Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae newidiadau’n dal i gael eu gwneud o ganlyniad uniongyrchol i gynllunio gweithredu ynglŷn ag argymhellion am ddigwyddiadau anffafriol difrifol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddio offeryn SBAR safonedig ar gyfer pob cyfathrebu, dull Llygaid Ffres o ddehongli cardiotocograffeg a defnyddio siartiau MEOWS yn gyson ar gyfer pob menyw yn y lleoliad acíwt. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan ym mhrosesau archwilio cardiotocograffeg, nodiadau achos a siartiau presgripsiynau, ac maent yn gyfrifol am lunio adroddiad sydd yna’n cael ei ddosbarthu i’r holl staff fel yr uchod. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi ymwneud â hyfforddiant cardiotocograffeg ar ddiwrnodau hyfforddiant staff.<br>Yn dilyn ymchwiliad i ddigwyddiad anffafriol difrifol diweddar yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, mae pryderon wedi eu codi am barhau i gamddehongli canlyniadau monitro ffoetysau. Rydym wedi cymryd nifer o gamau gan gynnwys:<br>• Adolygu ein hyfforddiant presennol i feddygon a bydwragedd i sicrhau eu bod yn teimlo’n hyderus i ddefnyddio dosbarthiad NICE wrth asesu olinau cardiotocograffeg.<br>• Rydym yn sicrhau bod pob monitor yn cael copi laminedig o ganllawiau NICE, a bod diagramau o arafiadau nodweddiadol ac annodweddiadol wedi’u hatodi atynt.<br>• Mae angen i bob bydwraig a phob meddyg fod yn defnyddio’r un dull dosbarthu, sef NICE 2010 yn ddelfrydol (yn y canllawiau Intrapartum) a dylid defnyddio’r sticer priodol i ddosbarthu hyn yn nodiadau’r menywod.<br><br>Byddwn yn cynnal arbrawf o “llygaid ffres” o ddydd Llun 30 Ionawr ymlaen. Rydym yn ymddiheuro bod hyn ar fyr rybudd, ond mae angen i ni weithredu ar frys i sicrhau ein bod yn lleihau’r risgiau i'r un camgymeriadau ddigwydd eto. Gweler y nodyn atgoffa yn yr e-bost isod, sydd hefyd wedi’i arddangos yn y Ward Esgor. Rydym wedi pennu mai chi, y Cydgysylltwyr Ward Esgor, yw’r bobl briodol i gynnal yr adolygiad llygaid ffres oherwydd eich profiad, oherwydd eich cyfrifoldeb am weithgarwch ar bob shifft ac oherwydd ei fod yn gyfle da i chi sicrhau eich bod yn cael y darlun llawn o bob menyw ar y Ward Esgor. Sicrhewch eich bod yn dogfennu eich adolygiad yn nodiadau’r fenyw a’ch bod yn defnyddio sticer NICE i ddosbarthu’r olin. Gellir defnyddio | Gan fod e-bost ar gael erbyn hyn i bob bydwraig ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, dylai Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried defnyddio e-bost i anfon diweddariadau rheolaidd am gamau gweithredu i’r bydwragedd y maent yn eu goruchwylio.<br><br>Archwiliadau rheolaidd o gydymffurfio â chamau gweithredu ymchwiliadau.<br><br>Eitem barhaol ar agenda cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd i adolygu camau gweithredu ac unrhyw bryderon y mae angen eu codi gyda rheolwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | adolygiad cofrestrydd obstetrig fel adolygiad llygaid ffres. Defnyddir offeryn archwilio syml i fesur pa mor dda yr ydym yn gallu darparu'r adolygiad hwn, ond rhowch wybod i mi os cewch chi unrhyw broblemau wrth wneud hyn. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V13 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | | **Ceir proses eglur a dulliau gwirioneddol o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol gyda bydwragedd yn ymarferol**<br><br>**Ceir enghreifftiau o newidiadau i arferion gwaith y gellir eu rhannu i ddangos bod y broses hon yn gweithio**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod unrhyw newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o ganlyniadau digwyddiad difrifol wedi eu harchwilio i sicrhau eu bod wedi arwain at welliant**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o ddull o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol h.y. cylchlythyr, ond nid yw hyn wedi'i ymsefydlu'n dda**<br><br>**Ceir tystiolaeth anecdotaidd o newidiadau i arferion gwaith ond ni ddilynwyd proses ffurfiol i'w cyflwyno**<br><br>**Ceir tystiolaeth o newidiadau i arferion gwaith ond nid ydynt wedi eu harchwilio i fesur llwyddiant**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Nid oes proses ffurfiol nac anffurfiol ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes unrhyw ganlyniadau a all ddangos newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth o archwilio newidiadau i arferion gwaith**<br><br>**Gall llai na 10 bydwraig ddisgrifio unrhyw beth tebyg i broses ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**

Nodwyd gwelliant yn y dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y safon hon yn ystod y flwyddyn.  Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi llunio siart llif i amlinellu'r broses ymchwilio sydd hefyd yn cyfeirio at y broses adborth ar gyfer gwersi a ddysgwyd gan gynnwys diwrnodau llywodraethu clinigol, cyfarfodydd unedau a chyfarfodydd misol Goruchwylwyr Bydwragedd.  Cyflwynwyd tystiolaeth ar lafar yn ystod yr ymweliad archwilio i ddangos bod proses yn bodoli i rannu gwersi a ddysgir gan y fydwraig risg a bydwragedd ar lefel ward yn ystod diwrnodau astudio gorfodol.  Roedd parhau i ddosbarthu 'Gwers y Mis' o gwmpas y wardiau mamolaeth, posteri Deg Uchaf o awgrymiadau newid ymarfer a'r hysbysfwrdd newydd i rannu gwersi a ddysgwyd/polisïau newydd yn ward esgor Ysbyty Nevill Hall i gyd yn enghreifftiau o arfer da ym maes rhannu gwybodaeth i gyfrannu at wella ymarfer.  Roedd y ffeil archwilio'n cynnwys enghreifftiau o newid ymarfer, gan gynnwys 'Llygaid Ffres' ar gyfer adolygu cardiotocograffeg ar ward esgor ac archwilio'r broses yn rheolaidd, ynghyd ag archwiliadau parhaus o siartiau presgripsiynau, sydd i gyd yn cryfhau'r dystiolaeth i ddangos gwell cydymffurfiad â'r safon hon.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod eu camau gwella arfaethedig a nodir uchod yn ffurfio rhan o'r Cynllun Gweithredu Goruchwylwyr Bydwragedd ac yn cael eu rhoi ar waith i roi tystiolaeth o welliant parhaus yn archwiliad nesaf yr AGLI.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V14 | **Caiff y cofnodion a gedwir gan bob bydwraig eu harchwilio'n flynyddol. *Rheol 9.*** | Cwblhawyd archwiliad o nodiadau ar draws y tair uned ym mis Tachwedd 2012 a chafodd y canlyniadau eu cyflwyno gan y goruchwylwyr mewn cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd ac ar y Diwrnod Llywodraethu Clinigol; cawsant eu rhannu rhwng yr unedau ynghyd â chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi datblygu siartiau llif clir ynglŷn â'r broses (yn y ffolder tystiolaeth). Dangosir crynodeb o'r canlyniadau ym mhob ardal. Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd hefyd yn cynnal archwiliad o gofnodion bydwragedd yn yr adolygiad goruchwylio blynyddol; ceir tystiolaeth o hyn yn yr holiadur a anfonwyd i fydwragedd pryd y dywedodd 100% eu bod wedi archwilio eu nodiadau gyda'r goruchwyliwr yn yr adolygiad goruchwylio blynyddol. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V14 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | **Ceir proses ysgrifenedig eglur i nodi pa brosesau archwilio cofnodion a fydd yn cael eu cynnal, pa mor aml, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y bydd y canlyniadau ar gyfer gwella yn cael eu rhannu gyda phob bydwraig**<br><br>**Ceir enghreifftiau o offerynnau archwilio cofnodion i ddangos sut y cynhelir yr archwiliadau**<br><br>**Ceir enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd o flwyddyn i flwyddyn a pha wersi a ddysgwyd o bob un ohonynt**<br><br>**Ceir enghreifftiau rheolaidd o sut y mae'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu â phob bydwraig** | **Nid oes proses ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio cofnodion ond mae tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, mewn gwahanol fformatau, gan wahanol bobl/timau a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n aml**<br><br>**Ceir un offeryn archwilio o leiaf i ddangos sut y cynhelir archwiliad**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o archwiliadau blaenorol ond nid ydynt yn systematig**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, ond nid yw hyn yn gyson** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw'n eglur pa mor aml, gan bwy na sut y mae archwiliadau'n cael eu cynnal**<br><br>**Nid oes unrhyw offerynnau archwilio cydnabyddedig i ddangos sut y bydd archwiliadau cadarn yn cael eu cynnal neu wedi cael eu cynnal**<br><br>**Dim ond enghreifftiau ad hoc a geir o archwiliadau cofnodion**<br><br>**Ceir enghreifftiau ad hoc o rannu'r gwersi a ddysgwyd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ceir tystiolaeth o archwilio a gwella rhwng adolygiadau**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio pob un o'r camau uchod a siarad am newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad** | **Ceir tystiolaeth o ail-archwilio, ond mae gwelliant parhaus yn llai amlwg**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r rhan fwyaf o'r camau uchod a siarad am sut y mae hyn wedi dylanwadu ar arferion gwaith** | **Prin yw'r dystiolaeth o ail-archwilio neu welliannau, neu ddim tystiolaeth o gwbl**<br><br>•<br>• **Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio unrhyw un o'r camau uchod neu siarad am sut y mae archwiliadau cofnodion yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cyflwynwyd llawer o dystiolaeth o'r flwyddyn hon ar gyfer y safon hon, gan ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi ystyried argymhellion archwiliad yr AGLI yn 2011/12. Mae tystiolaeth yr archwiliadau a'r siartiau llif a luniwyd i arwain y broses yn dangos bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd mewn llawer o feysydd ymarfer, h.y. cadw cofnodion, defnyddio cardiotocograffeg, defnyddio siartiau presgripsiynau, ymholiadau rheolaidd DA a MEOWS. Roedd ychwanegu cynllun gweithredu i roi sylw i feysydd i'w gwella yn arfer da; mae angen datblygu hyn ymhellach i ddangos sut y caiff canlyniadau'r cynlluniau gweithredu eu monitro. Cafwyd tystiolaeth hefyd bod canlyniadau archwiliadau'n cael eu rhannu yng nghyfarfodydd tîm yr uned, ar ddiwrnodau llywodraethu clinigol, yn rhan o'r broses adolygu goruchwylio a drwy'r Briffiau Gwers y Mis.  Dangosodd adroddiad yr archwiliad o safbwyntiau bydwragedd fod 100% o'r 119 o fydwragedd a oedd wedi'u cynnwys yn yr archwiliad wedi cael archwilio o leiaf un set o'u cofnodion yn eu hadolygiad blynyddol, sy'n welliant o ran cydymffurfiad ar 2011/12. Roedd y bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliad archwilio'n gallu disgrifio'r agwedd hon ar y broses adolygu flynyddol.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Cafwyd gwelliant mawr yn y safon hon, a'r unig gam gweithredu a argymhellir yw dangos tystiolaeth fod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith a bod cydymffurfiad ag ef yn cael ei fonitro, gan bwy ac erbyn pryd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V15 | **Caiff gwybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd yn statudol ei chyhoeddi, e.e. drwy gyfrwng cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-bost, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLI, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd.** | Mae gwybodaeth am Oruchwylio Bydwragedd a chylchlythyr yr AGLI wedi'u harddangos ar Fyrddau Goruchwylio ym mhob man clinigol, ac mae taflenni gwybodaeth ar gael ym mhob clinig cynenedigol i fenywod a theuluoedd. Mae adran mamolaeth gwefan y Bwrdd Iechyd hefyd yn rhoi gwybodaeth am oruchwylio bydwragedd ac am sut i gysylltu â goruchwyliwr – gweler tystiolaeth y cyflwyniad PowerPoint yn y ffolder. Mae'r AGLI hefyd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydlynu Gwasanaethau Mamolaeth ac i oruchwylwyr os yw bydwragedd yn aelodau o'r Pwyllgor hwn ac o'r Bwrdd Mamolaeth. | |

| Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|
| V15 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | **Ceir tystiolaeth amlwg y rhoddir cyhoeddusrwydd i Oruchwylwyr Bydwragedd yn yr holl fannau y mae menywod a theuluoedd yn ymweld â hwy** | **Mae rhywfaint o wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg, ond nid yw'n gyson ym mhob man lle y gwelir menywod a theuluoedd** | **Nid oes gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg i aelodau'r cyhoedd ei gweld mewn unrhyw fan** |
| | **Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ynghyd â dogfennau ysgrifenedig eraill sy'n esbonio wrth fenywod pam y gallent fod yn dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd, a sut i wneud hynny** | **Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gael ond nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i pharatoi'n lleol ac nid yw'n eglur i fenywod pam y byddent efallai'n dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd** | **Nid oes taflenni a baratowyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nac yn lleol ar gael i fenywod** |
| | **Ceir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol am swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut i gysylltu â hi** | **Ceir cyfeiriad at Oruchwylwyr Bydwragedd ar y wefan ond dim manylion ychwanegol** | **Ni chyfeirir at Oruchwylwyr Bydwragedd ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol** |
| | **Ceir tystiolaeth bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei rannu gyda fforymau defnyddwyr megis y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar draws y sefydliad i fyny at lefel y Bwrdd** | **Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu gyda'r Bwrdd ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos ei fod wedi ei rannu'n ehangach** | **Dim ond gyda'r Bwrdd y rhannwyd yr adroddiad blynyddol, os o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn ymwybodol bod cylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael ei rannu gyda bydwragedd a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae llai na 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn gallu disgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**

Dangosodd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ymroddiad rhagorol i'r safon hon fel arweinwyr cryf. Roedd gwefan y BILl yn cynnwys dolen at dudalen y Goruchwylwyr Bydwragedd, ond yn anffodus hen adroddiad blynyddol oedd ar gael yno. Roedd byrddau gwybodaeth i gleientiaid, Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd i'w gweld ym mhob man yr ymwelwyd ag ef, ynghyd â gwybodaeth am oruchwyliaeth a pham y ceir cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd. Mae BILl Aneurin Bevan wrthi'n datblygu Pwyllgor Cydlynu Gwasanaethau Mamolaeth ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd. Cyfarfu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI â chadeirydd y Pwyllgor hwn yn ystod yr ymweliad archwilio a siaradodd hi'n gadarnhaol am sut yr oedd Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnig cymorth i fenywod; roedd hi'n teimlo'n gyffredinol fod gwasanaethau'n gwrando ar safbwyntiau menywod. Roedd adroddiad blynyddol yr AGLI ac adroddiad blynyddol y BILl wedi'u rhannu â'r Pwyllgor ac ar lefel y Bwrdd drwy gyfrwng papur briffio a baratowyd gan y pennaeth bydwreigiaeth ac a gyflwynwyd gan y cyfarwyddwr nyrsio. Gwelwyd y cylchlythyr AGLI ar hysbysfyrddau Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd, ac roedd rhai o'r bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliad yn gallu disgrifio ei ddiben o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau a newyddion gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae nifer o enghreifftiau wedi cael eu rhannu mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd o Oruchwylwyr Bydwragedd yn cydweithio â bydwragedd fel tîm i gefnogi menywod a bydwragedd pan fo menywod yn gwneud dewisiadau nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â'u lefel risg. Mae defnyddio'r offeryn cyfathrebu SBAR i rannu cynlluniau gofal a chynlluniau gweithredu'n enghraifft arall o arfer da.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylid ailwampio'r wefan i sicrhau bod y wybodaeth arni'n gyfredol ac yn berthnasol, a dylid parhau â'r holl waith da a wnaed hyd yma.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V16 | **Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhrosesau ffurfio polisïau, gosod safonau a monitro arferion a chyfarpar er budd Iechyd a Diogelwch.** | Goruchwylwyr Bydwragedd yn casglu gwybodaeth am safonau cymunedol<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar bydwragedd cymunedol yn 2012<br>Yr holl staff yn archwilio cyfarpar wardiau'n rheolaidd.<br>Goruchwyliwr Bydwragedd wedi dylunio'r hyfforddiant cardiotocograffeg ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar y cyd â chydweithwyr ymgynghorol.<br>Mae Goruchwyliwr Bydwragedd yn monitro nifer y bydwragedd sy'n cael hyfforddiant cardiotocograffeg.<br>Mae Goruchwyliwr Bydwragedd yn defnyddio offeryn asesu i asesu gwybodaeth bydwragedd am gardiotocograffeg ar ddiwrnodau astudio.<br>Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn gallu defnyddio cronfa ddata K2 i fonitro cynnydd y bydwragedd y maent yn eu goruchwylio.<br>Mae Goruchwyliwr Bydwragedd wedi cwblhau Hyfforddiant Personau Cymwys Iechyd a Diogelwch ac yn diweddaru cofnodion yn ôl y gofyn.<br>Mae adolygiad cardiotocograffeg yn rhan o adolygiad goruchwylio blynyddol pob bydwraig.<br>Tystiolaeth yn y ffolder. | | Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnwys archwiliad cyfarpar yn rhan o adolygiad goruchwylio blynyddol bydwragedd cymunedol yn 2013/14. |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V16 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gymedrol i gryf.**<br>**Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.** | **Ceir polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward ac ar gyfer bydwragedd cymunedol**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n aml o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel** | **Nid oes polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, ond gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio sut y mae hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, ond nid yw hyn yn gyson**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut na pha mor aml y gwneir hyn**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ceir tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio a monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG** | **ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'r AGLI wedi gweld tystiolaeth o archwilio cyfarpar ac archwiliadau cynnal a chadw gan bersonél priodol ar gyfer cyfarpar megis cloriannau ac Entonox. Gwelwyd tystiolaeth hefyd yn y mannau clinigol i gadarnhau archwilio troliau yn rheolaidd, a chyfarpar arall yn ôl yr angen. Nid cyfrifoldeb y Goruchwylwyr Bydwragedd yn unig oedd hyn, ond roeddent yn gallu disgrifio beth sy'n digwydd a phryd. Mae'r canllaw newydd i Fydwragedd sy'n Rhoi Gofal yn y Gymuned, a ddatblygwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd, yn amlinellu'n glir beth yw'r gofynion o ran y cyfarpar y dylai bydwragedd cymunedol ei gludo. Cafwyd tystiolaeth hefyd bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cynnal archwiliad ar hap o gyfarpar bydwragedd cymunedol yn ystod y flwyddyn; gellid bod wedi cryfhau hyn drwy ychwanegu cynllun gweithredu i'w ddilyn pe byddai cydymffurfiad â'r gofynion yn llai na 100%. Roedd ychwanegu dogfen Safonau Bydwreigiaeth Gymunedol ar gyfer 19 o safonau fel tystiolaeth eleni yn ychwanegu at y sicrwydd, ond mae'n llai clir a yw cydymffurfiad â'r safonau hyn ynddo'i hun yn cael ei archwilio. Cafwyd tystiolaeth gref bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud yn agos â hyfforddi, asesu cymhwysedd a rhannu arfer da a gwersi a ddysgir o ran defnyddio cardiotocograffeg, er bod angen gwella presenoldeb mewn diweddariadau cardiotocograffeg a'r niferoedd sy'n cwblhau K2. Roedd y cyflwyniad hyfforddiant am glustfeinio deallus ysbeidiol yn amserol iawn i gefnogi bydwragedd sy'n darparu gofal wedi'i arwain gan fydwreigiaeth mewn meysydd risg isel.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd barhau i gynnal archwiliadau ar hap o gydymffurfiad bydwragedd cymunedol â gofynion, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer adborth i fydwragedd cymunedol a'u rheolwyr llinell pan fydd cydymffurfiad yn llai na 100%. Dylent ystyried hefyd sut y byddant yn dangos bod bydwragedd cymunedol yn cydymffurfio â'r safonau cymunedol mewn modd cymesur yn ogystal â'r cam gweithredu a argymhellwyd eisoes i gydweithio â rheolwyr i wella cydymffurfiad bydwragedd â hyfforddiant ac asesiadau cardiotocograffeg.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i’w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V17</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i’w cyflogwr os ydynt yn pryderu bod adnoddau annigonol yn peryglu’r cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.</td><td colspan="2">Ceir tystiolaeth o hyn yng nghofnodion cyfarfodydd goruchwylwyr a thrwy e-bost gan oruchwylwyr i uwch reolwyr. Mae goruchwylwyr yn ysgrifennu crynodeb rheoli erbyn hyn i hysbysu rheolwyr am ganlyniadau adolygiadau achosion neu ymchwiliadau, a rhennir mwy o wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.</td><td>O fis Chwefror 2013 ymlaen, bydd eitem barhaol ar yr agenda ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch y cyhoedd; bydd y Goruchwyliwr Bydwragedd cyswllt yna’n rhannu’r rhain yn uniongyrchol ag uwch reolwyr.</td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau’r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V17 Canlyniad:<br>.<br>AGLI – BODLONWYD gyda thystiolaeth gymedrol i gryf.<br>Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer datblygiad.</td><td>Mae cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn dangos y trafodir materion staffio neu risgiau eraill i ddiogelwch cleifion<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd i gynorthwyo bydwragedd i gynnal arferion gwaith diogel ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny<br><br>Ceir tystiolaeth ysgrifenedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi eu pryderon gyda’r pennaeth bydwreigiaeth pan fo’u llwyth gwaith eu hunain yn peryglu eu gallu i amddiffyn y cyhoedd neu pan fo pryderon o’r fath yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny</td><td>Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â lefelau staffio diogel ac ati, ond nid yw mor eglur pa gamau a gymerwyd o ganlyniad<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu ond nid yw’r rhain yn gadarn ac nid yw’r canlyniadau wedi’u diffinio’n eglur<br><br>Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi pryderon gyda’r pennaeth bydwreigiaeth ac eraill, ond ni fu unrhyw gamau dilynol na newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i hynny</td><td>Nid oes tystiolaeth bod materion o’r fath yn cael eu trafod gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfarfodydd</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau’r AGLI</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd a chofnodion y cyfarfodydd yn dangos mwy o bwyslais ar staffio a materion eraill yn ymwneud â diogelwch. Bydd ychwanegu eitem barhaol ar yr agenda i roi sylw i faterion Diogelwch y Cyhoedd ers mis Chwefror eleni'n cryfhau hyn ymhellach. Mae tystiolaeth dda yng nghynlluniau gweithredu Goruchwylwyr Bydwragedd o ran rheoli ceisiadau menywod â risg uchel sy'n dewis esgor mewn ardal risg isel, ond mae llai o dystiolaeth ar gael i ddangos cynllunio gweithredu o ran materion staffio neu adnoddau yr hysbysir amdanynt; derbynnir, fodd bynnag, ei bod yn debygol bod uwch reolwyr yn gwneud hyn yn ddyddiol. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a'r Goruchwyliwr Bydwragedd cyswllt yn cyfarfod bob tri mis â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a bob hanner blwyddyn â'r Cyfarwyddwyr Nyrsio. Cânt godi materion sy'n peri pryder penodol yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r arfer o ysgrifennu crynodeb rheoli ar ôl adolygu achos yn ymwneud â goruchwyliaeth yn dod yn fwy safonol erbyn hyn, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod prosesau ymchwilio ac ysgrifennu adroddiadau'n cael eu cwblhau'n brydlon er mwyn cynorthwyo rheolwyr i lunio adroddiadau. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd lunio cynlluniau gweithredu ar faterion yr hysbysir amdanynt i reolwyr ar ôl ymchwiliadau, ac yna eu dilyn drwy gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cymryd a bod newidiadau wedi'u gwneud i sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a bod cynllun ar waith i archwilio canlyniadau. |

## 5 Casgliad

**5.1** Roedd yr AGLI yng Nghymru yn cydnabod bod angen adolygu proses archwilio Goruchwylwyr Bydwragedd a'i symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at ei diben, ac y byddai'n ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd sy'n bodoli o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr AGLI hefyd â'u bryd ar osgoi dyblygu ymdrechion Goruchwylwyr Bydwragedd drwy lunio proses fwy di-dor i sicrhau y byddai canlyniadau ac argymhellion yn berthnasol ac yn rhoi sail i'r ffordd ymlaen mewn cyfnodau cynllunio canlynol. Mae hon yn broses ddynamig a bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i wneud mwy i fireinio'r archwiliad blynyddol er mwyn iddo ategu'r trefniadau llywodraethu mewnol yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r AGLI a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**5.2** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r AGLI yn ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd at yr ymweliad archwilio ac at gasglu'r dystiolaeth, ac i'r Bwrdd Iechyd am eu croeso.

**5.3** Mae'r AGLI yng Nghymru yn edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i barhau i sicrhau bod y swyddogaeth oruchwylio'n fwy amlwg ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r gwaith o Ddiogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol gan ddangos i'r Bwrdd bod goruchwylio wirioneddol yn ychwanegu gwerth at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

**Atodiad A**

## AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad: Dydd Iau, 7 Chwefror 2013**
**Lleoliad: Ysbyty Nevill Hall, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd | |
|---|---|---|---|
| 1 | 09.00 | Cyrraedd a Choffi | |
| 2 | 09.15 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben archwilio goruchwyliaeth, a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Rheolwr Risg Corfforaethol<br>Cymorth gweinyddol i'r goruchwyliwr bydwragedd | |
| 3 | 09.30 | Cyflwyniad 20 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol i roi golwg gyffredinol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o adroddiad blynyddol lleol 2010-2011<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da<br>3. Enghreifftiau o broffil goruchwylio yn lleol<br>4. Gwybodaeth allweddol ar gyfer adroddiad blynyddol lleol 2012-2013<br>5. Cyfeiriad y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a chynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer 2013-2014 | |
| 4 | 10.30 | **Coffi** | |
| 5 | 10.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Rheolwr Risg (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod ag arweinwyr ym maes Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac adolygu enghreifftiau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu â defnyddwyr (Tîm 2) |
| 6 | 11.15 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â myfyrwyr bydwreigiaeth, addysgwyr ymarfer, mentoriaid bydwragedd (Tîm 2) |
| 7 | 11.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i adolygu tystiolaeth o safonau archwilio V1, V3, V4, V11, V12, V13, V14, V16, a V17. | |
| 8 | 13:00 | **Cinio** | |
| 9 | 13:30 | Tîm Adolygu'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol | |
| 10 | 15.00 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| 11 | 16.00 tan 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ac eraill, crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

## Atodiad B

**Rhestr o'r rhai a gymerodd ran ym mhroses yr Archwiliad Blynyddol – BILI Aneurin Bevan**

**Cyfarwyddwr Nyrsio** – Denise Llewellyn

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Deb Jackson

**Rheolwr Rhaglen/Tiwtor Derbyn** – Fran Magness

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Louise Taylor

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Suzanne Hardacre

**Prif Nyrs/Bydwraig Ansawdd a Diogelwch Adrannol Gwasanaethau i Deuluoedd** – Debbie Pimbley

**Bydwraig Ymgynghorol/Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt** – Grace Thomas

**Cydgysylltydd Risg** – Jayne Beasley

**Arweinydd Addysg/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Melrose East

**Bydwraig Arweiniol/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Lesley Constance

**Cymorth ysgrifenyddol i Oruchwylwyr Bydwragedd** – Kerry Jeffries

**Wedi cyfarfod â Thîm yr AGLI**

Bydwragedd o bob rhan o'r adran esgor, wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol, DAU

Bydwragedd dan hyfforddiant

**Ymddiheuriadau:**

Dim un yn hysbys